

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Caffael a Masnachol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Mark Drakeford AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
11 Rhagfyr 2025

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Deddf Caffael 2023 ("Deddf 2023") yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chaffael Cyhoeddus Cymru.
- 1.2 Bydd Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025 ("y Rheoliadau") yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r pŵer wedi'i nodi ym mharagraff 2, Atodlen 1 i Ddeddf 2023 i ddiweddarau symiau trothwy penodol yn Atodlen 1. Mae'r symiau hyn yn llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau.
- 1.3 Bydd y diwygiadau hyn yn dilyn adolygiad o'r trothwyon perthnasol i sicrhau eu bod yn parhau i gyfateb i'r trothwyon perthnasol a osodir yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael Llywodraeth ("GPA").
- 1.4 Mae rheoliad 3 (1) yn diwygio'r tabl sy'n cynnwys y symiau trothwy a nodir yn Atodlen 1 i'r Ddeddf. Bydd gofyn i gontractau o wahanol fathau sy'n werth mwy na symiau'r trothwy gael eu rheoleiddio gan y gyfundrefn o sylwedd.
- 1.5 Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newidiadau i drothwyon, gan ei gwneud yn glir pa bryd y maent yn cael effaith.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2023.
- 3.2 Yn unol â darpariaethau adran 122(11) o Ddeddf 2023, mae'r offeryn statudol hwn sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i ddiddymiad yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae'r Rheoliadau yn diwygio trothwyon ariannol penodol a gynhwysir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2023, sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau.
- 4.2 Bydd gofyn i gontractau o wahanol fathau sy'n werth mwy na symiau'r trothwy hyn gael eu rheoleiddio gan y gyfundrefn o sylwedd.
- 4.3 Bydd y diwygiadau hyn yn dilyn adolygiad o'r trothwyon perthnasol i sicrhau eu bod yn parhau i gyfateb i'r trothwyon perthnasol a osodwyd yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael gan Lywodraethau ("GPA").
- 4.4 Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal bob dwy flynedd.

5. Sut bydd yr is-ddeddfwriaeth yn gwella'r sefyllfa bresennol

- 5.1 Bydd y Rheoliadau yn diweddarau'r tabl yn Atodlen 1 sy'n cynnwys y trothwyon caffael i sicrhau aliniad â gofynion Cytundeb Caffael Llywodraeth (GPA) Sefydliad Masnach y Byd (WTO), gan sicrhau bod y DU yn parhau i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol.
- 5.2 Bydd hyn yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i Awdurdodau Contractio Cymru, yn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodaethau'r DU, ac yn lleihau'r risg o anghydfodau masnach.
- 5.3 Mae rheoliad 4(1) yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â'r newidiadau i drothwyon, gan ei gwneud yn glir pryd y maent yn cael effaith.

6. Sut y mae'r ddeddfwriaeth yn galluogi sectorau i weithredu'n fwy effeithlon?

- 6.1 Drwy ddiweddarau Atodlen 1 i adlewyrchu'r trothwyon presennol a ddangosir yn y GPA, mae'r Rheoliadau yn rhoi eglurder a sicrwydd i awdurdodau contractio a chyflenwyr, gan gefnogi prosesau caffael effeithlon a chyfreithlon.

7. A fydd y ddeddfwriaeth yn gwella mynediad neu ganlyniadau ar gyfer rhannau o gymdeithas sydd o dan anfantais neu sydd wedi'u hallgáu

- 7.1 Bydd y Rheoliadau hyn a Deddf 2023 a'r rheoliadau cysylltiedig, ochr yn ochr â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("SPPP") a Deddf Caffael Gwasanaethau Iechyd (Cymru) 2024 ("HSP"), i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd i ddarparu fframwaith effeithiol ar gyfer gweithgarwch caffael cyhoeddus yng

Nghymru.

- 7.2 Ochr yn ochr â Datganiad Polisi Caffael Cymru ("WPPS") a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ("WBFGA"), bydd hyn yn sicrhau bod sector cyhoeddus Cymru yn defnyddio caffael fel erfyn effeithiol i sicrhau canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol, gan gynnwys gwaith teg.
- 7.3 Mae'r darpariaethau a geir yn y Rheoliadau yn dechnegol eu natur ac yn ymwneud â gweithredu trothwyon sy'n ymwneud â rhwymedigaethau caffael rhyngwladol. Nid ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar fynediad na chanlyniadau i grwpiau difreintiedig neu wedi'u hallgáu.
- 7.4 Er nad yw Rheoliadau a Deddf 2023 gysylltiedig yn gwneud unrhyw gyfeiriad uniongyrchol arall at unrhyw nodweddion gwarchodedig, dylai Awdurdodau Contractio Cymru ystyried sut y gallant ddefnyddio'r fframwaith caffael cyhoeddus i sicrhau canlyniadau ychwanegol drwy eu gweithgareddau caffael, sy'n gwneud yn fawr o gyfleoedd i ddarparu lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- 7.5 Nid yw'r Rheoliadau na Deddf 2023 gysylltiedig yn rhoi rhai pobl na grwpiau o dan fwy o anfantais nag eraill. Ni nodwyd unrhyw effeithiau neu rwystrau negyddol uniongyrchol nac anuniongyrchol ar bobl â nodweddion gwarchodedig.

8. Ymgynghori

- 8.1 Gan fod y Rheoliadau hyn yn ddiwygiadau technegol i weithredu trothwyon sy'n ymwneud â rhwymedigaethau rhyngwladol, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol wedi'i gynnal.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

9. Cyflwyniad

- 9.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) hwn yn asesu effeithiau posibl y Rheoliadau sy'n cael eu cynnig, sef Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025. Mae'r asesiad yn ystyried dau opsiwn: Busnes fel arfer (gwneud dim) a gwneud is-ddeddfwriaeth.
- 9.2 Nod yr RIA yw nodi unrhyw gostau trosiannol ychwanegol i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Contractio Cymru (ACCau), neu ddarpar gynigwyr, yn ogystal ag unrhyw gostau parhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Rheoliadau arfaethedig.

Opsiynau a ystyriwyd

10. Opsiwn 1: Busnes fel Arfer – Gwneud dim

- 10.1 Byddai gwneud dim yn golygu nad yw'r adolygiad dwyflynyddol o drothwyon caffael yn cael ei roi ar waith. Mae'r trothwyon hyn yn cael eu hadolygu bob dwy flynedd i ystyried amrywiadau yng ngwerth arian cyfred ac i sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau o dan Gytundeb Caffael Llywodraeth (GPA) Sefydliad Masnach y Byd.
- 10.2 Byddai peidio â chynnal yr adolygiad hwn yn gwneud y trothwyon yn hen ac yn anghyson â rhwymedigaethau rhyngwladol, gan danseilio tryloywder a thegwch mewn caffael cyhoeddus gan y byddai awdurdodau contractio yn defnyddio ffigurau nad ydynt bellach yn adlewyrchu ymrwymïadau GPA.
- 10.3 Gallai hynny wneud awdurdodau contractio a Llywodraeth Cymru yn agored i risgiau cyfreithiol a pheryglu'u henw da, gan gynnwys:
- Mwy o risg y bydd Cymru'n cael ei gweld fel gwlad nad yw'n cydymffurfio â rhwymedigaethau GPA, a allai arwain at anghydfodau yn cael eu codi yn y WTO neu o dan Gytundebau Masnach Rydd, a/neu niwed i enw da ar lefel rhyngwladol. Byddai canlyniadau anghydfod llwyddiannus sy'n codi yn erbyn y DU o dan y WTO neu FTA yn debygol o olygu y bydd gofyn i'r DU newid ei mesurau a/neu dalu iawndal. Hefyd, gallai tariffau neu gwotâu dial gael eu gosod ar ei fewnforion neu allforion.
 - Ansicrwydd gweithredol i awdurdodau contractio, gan arwain at aneffeithlonrwydd a chamgymeriadau posibl wrth gaffael.
- 10.4 Yn ogystal, gallai peidio â diweddarau trothwyon arwain at wahaniaeth i'r hyn a wneir yn rhannau eraill y DU, lle cynhelir adolygiadau'n

rheolaidd. Gallai hynny effeithio ar gysondeb a hyder yn y fframwaith caffael.

- 10.5 Gallai peidio â gweithredu rhwymedigaethau caffael beryglu gallu'r DU i gydymffurfio â'r manylion a gynhwysir yn y GPA, gan arwain o bosibl at anghydfodau neu sancsiynau ar lefel ryngwladol. Gallai anghydfod llwyddiannus arwain at osod sancsiynau economaidd ar y DU fel a ddisgrifir yn 10.4. Byddai Cymru, fel rhan o'r DU, yn gysylltiedig ag unrhyw achos o'r fath o dorri amodau.
- 10.6 Pe na bai'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud, byddai hynny'n golygu na fyddai'n cydymffurfio â'r trothwyon caffael gofynnol ac yn ogystal â'r risgiau a ddisgrifir uchod, byddai'n creu anghysondeb â'r drefn a fabwysiedir gan Llywodraeth y DU ac adran Gogledd Iwerddon, lle mae rheoliadau'n cael eu gweithredu'n briodol, a gallai amlygu awdurdodau contractio i risgiau cyfreithiol ac enw da.

11. Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth

- 11.1 Mae'r opsiwn hwn yn diweddarau'r trothwyon i adlewyrchu chwyddiant a phenderfyniadau polisi.
- 11.2 Y fantais yw sicrwydd cyfreithiol, cymesuredd, a chysondeb ag arferion ledled y DU.
- 11.3 Yr effaith ymarferol ar awdurdodau contractio o newid y trothwyon fydd y bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio'r ffigurau sydd wedi'u diweddarau yn y Rheoliadau wrth benderfynu pa weithdrefnau caffael sydd eu hangen. Nid yw'r Gweithdrefnau Caffael eu hunain wedi newid.
- 11.4 Os bydd gwerth contractau nawr yn uwch na'r trothwyon diwygiedig, bydd yn rhaid dilyn y rheoliadau caffael llawn i gydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.
- 11.5 Gall hyn arwain at gostau ychwanegol a goblygiadau o ran adnoddau i awdurdodau contractio; fodd bynnag, ni allwn feintoli'r effaith lawn ar y gost na nifer y contractau yr effeithir arnynt ledled Cymru. Gallai peidio â chydymffurfio arwain at ymgais i gael rhwymedi neu at anghydfodau masnach.
- 11.6 Dylai awdurdodau contractio adolygu'r trothwyon newydd, ymglyfarwyddo â'r ffigurau diwygiedig, a diweddarau eu canllawiau a'u gweithdrefnau mewnol lle bo hynny'n briodol i adlewyrchu'r newidiadau hyn.
- 11.7 Dylent ddefnyddio'r trothwyon diwygiedig fel sail ar gyfer sicrhau bod caffaeliadau o 1 Ionawr 2026 ymlaen yn cydymffurfio. Er bod y camau hyn yn angenrheidiol, ni allwn feintoli cost lawn y broses hon ledled

Cymru.

- 11.8 Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn cael eu diweddarau, a bydd deunydd cyfathrebu'n cael ei gyhoeddi i sicrhau bod Awdurdodau Contractio yn ymwybodol o'r newid yn y symiau trothwy er mwyn iddynt adolygu a diweddarau eu gweithdrefnau.
- 11.9 Mae'r darpariaethau trosiannol yn sicrhau na effeithir ar gaffaeliadau sy'n mynd rhagddynt, gan leihau aflonyddwch.
- 11.10 Byddai'n sicrhau bod Awdurdodau Contractio yng Nghymru a Lloegr yn gweithredu yn yr un ffordd.

12. Costau a manteision - Opsiwn 1: Gwneud dim

- 12.1 Dyma'r opsiwn sylfaenol. Mae'n anodd bod yn sicr ynghylch y costau sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Gallai arwain at anghydfodau'n cael eu codi yn y WTO neu o dan Gytundebau Masnach Rydd, a/neu at golli enw da ar lefel ryngwladol. Pe bai anghydfod llwyddiannus yn cael ei godi yn erbyn y DU drwy'r WTO neu o dan Gytundeb Masnach Rydd, mae'n debygol y byddai hyn yn arwain at y DU yn gorfod newid ei mesurau a/neu dalu digolledu. Hefyd gallai tariffau neu gwtâu dialgar gael eu gosod ar ei mewnforion neu allforion.
- 12.2 Ni nodwyd unrhyw fanteision eraill.

13 Costau a manteision - Opsiwn 2: Gwneud Is-ddeddfwriaeth

- 13.1 Mae'r Rheoliadau yn rhoi'r Trothwyon diwygiedig wedi'u diweddarau ar waith ar gyfer rhwymedigaethau rhyngwladol a gynhwysir yn GPA y WTO a byddant yn rhoi sicrwydd cyfreithiol i Awdurdodau Contractio. Er y gall fod rhai costau fel a ddisgrifir yn yr adrannau uchod, ni ellir meintoli'r manylion.
- 13.2 Drwy weithredu'r Rheoliadau hyn, bydd ACCAu yn parhau i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan y GPA ynghylch trothwyon, gan helpu i osgoi anghydfodau a chynnal enw da Cymru ar lefel ryngwladol.
- 13.3 Mae diweddarau trothwyon hefyd yn sicrhau aliniad â'r drefn a ddilynir yn rhannau eraill y DU, gan gefnogi cysondeb a hyder yn y fframwaith caffael.
- 13.4 Mantis opsiwn 2 yw sicrwydd cyfreithiol, cydraddoldeb a chydymffurfiaeth â Rhwymedigaethau Rhyngwladol y DU o dan y GPA o ran trothwyon. Am y rhesymau hyn, opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.